PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 16 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Hinchey, Lent, Lister a/ac Molik |
| Swyddogion yn bresennol: | Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Plant) |
| Ymgynghorwyr oedd yn Bresennol: | Gillian James (Uwch Arweinydd Cyflawni, Cau'r Bwlch) |

**Newidiwyd y cofnodion hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Ionawr 2019. Mae'r newid wedi'i amlygu mewn llythrennau trwm ac italig.**

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bowden, Jenkins a Weaver a chan Sureen Kutubi, Jess Brown a Rose Whittle – Ymgynghorwyr Pwyllgor

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

22 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd. Cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant

23 : CYNNWYS PLANT SY'N DERBYN GOFAL YN YSGOL UWCHRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU TEILO SANT

Croesawodd y Cadeirydd Ian Loynd, Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant i'r cyfarfod. Roedd Mr Loynd am rannu gyda'r Aelodau ei farn ar pam mae Teilo Sant mor llwyddiannus; mae amser wedi'i dreulio ac mae arian wedi'i wario ar agenda cynnwys a llesiant disgyblion. Ar hyn o bryd mae 43 plentyn sy'n derbyn gofal yn yr ysgol, ond mae'r ffigur hwnnw'n amrywio bob wythnos.

Mae gan yr ysgol genhadaeth a diben – ceisio cyflawni'r safonau uchaf trwy sicrhau bod pob lle yn yr ysgol yn lle dysgu, lle gwella a lle cysegredig. Rhaid i ethos a diwylliant yr ysgol fod yn adferol ac nid yn gosbol. Caiff disgyblion a staff eu hannog i helpu a meithrin ei gilydd a chyfrannu at y genhadaeth. Mae'r ysgol yn ceisio gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol.

Nid oes dosbarthiadau yn ysgol Teilo Sant, mae ynddi deuluoedd ffydd i gynnig cefnogaeth. Rhodd Mr Loynd i'r Aelodau wybodaeth mewn cerdd gan 3 pherson ifanc, yn rhannu eu straeon o ran yr hyn y gwnaethon ni yn ystod eu hamser yn derbyn gofal.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw neu ofyn cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd gan Mr. Loynd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau beth y gellir ei wneud i sicrhau bod ysgolion eraill mor llwyddiannus â Teilo Sant. Dywedodd Mr Loynd fod Teilo Sant mewn sefyllfa ffodus i gael llawer o adnoddau ac ar hyn o bryd mae gweithredu ar gyllideb gytbwys. Yn yr amgylchiadau, mae mewn sefyllfa i gyflogi staff; mae hefyd yn helpu wrth flaenoriaethu'r meysydd mae angen arian arnynt; er enghraifft nid oes angen LEAP gan y gellir rhoi cymorth arall. Yn gyfnewid am hyn, caiff dim neu ddim llawer o arian ei wario ar ddarpariaeth amgen.

  Rhoddodd wybod i'r Aelodau y dylai Awdurdodau Lleol edrych y tu hwnt i'r canlyniadau ac annog a chanmol y rheiny sy'n rhoi gofal ystyrlon i bobl ifanc. Mae'n bwysig pwysleisio ein bod ni i gyd yn Rhieni Corfforaethol a'n bod yma i wasanaeth ein pobl ifanc.

- Trafododd yr Aelodau nifer y polisïau mae angen cydymffurfio â nhw ac a fyddai rhyw fath o bolisi neu egwyddorion trosfwaol neu ryw fath o ymarfer mapio corfforaethol mewn perthynas â'r polisïau amrywiol.

- Nododd yr Aelodau fod ysgolion yn dal yn rhwystrol pan ddaw hi'n father o dderbyn plant sy'n derbyn gofal. Mae angen proses fwy cadarn, sydd â digon o adnoddau i sicrhau nad oes oedi wrth dderbyn plentyn i ysgol; oedi sy'n bygwth diogelwch person ifanc.

  Trafododd yr Aelodau a allai fod rhyw fath o Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen, gyda'r canlyniadau'n cael eu rhoi i'r Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Loynd am ddod i'r cyfarfod ac am roi cyflwyniad i'r Aelodau.

24 : ADOLYGIAD YMARFER PLANT

Croesawodd y Cadeirydd Alys Jones, Rheolwr Gweithredol Diogelu, i'r cyfarfod i amlinellu canfyddiadau Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i ymestyn oedd wedi'i wneud a'i gyhoeddi'n ddiweddar ar wefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg.

Dywedodd yr Aelodau mai'r dyddiad dechrau ar gyfer cwmpas yr adolygiad rhwng 2011 a 2014. Yn 2014 oedd yr atgyfeiriad at Is-bwyllgor Adolygiad Ymarfer Plant y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Cafwyd trafferth penodi Cadeirydd ac Aelodau Panel a olygodd na chyfarfu'r Panel tan fis Mawrth 2015. Bu pryderon hefyd am bwyntiau wedi'u gwneud yn yr adolygiad, o ganlyniad nid yw'r adolygiad wedi'i gyhoeddi tan nawr. Cafodd Cynllun Gweithredu o argymhellion ei ddatblygu a chytunwyd arno, o ganlyniad i oedi yn yr achos hwn mae nifer o gamau eisoes wedi'u hadolygu a'u cwblhau, er enghraifft:

- Lleoliadau Allan o’r Sir;
- Trosglwyddo gwybodaeth;
- Atgyfeiriadau pwynt cyswllt;
- Rôl y cydlynydd pobl sydd ar goll;
- Cwblhau asesiadau;
- Asesiadau risg mewn perthynas â defnyddio ffonau symudol;
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau teulu pan nad oes unrhyw un â’r gallu i fod yn oedolyn; a
- Adolygu Protocol Cymru Gyfan

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Dywedwyd wrth yr Aelodau y gellir gwneud atgyfeiriad trwy unrhyw weithiwr proffesiynol sy’n ymwneud â’r achos pan gredir y gellir dysgu gwersi gan y canlyniad.  Gall y cyhoedd wneud atgyfeiriad hefyd.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon am yr oedi hir wrth adrodd a chyhoeddi’r adolygiad hwn.  Dywedodd y Swyddog fod gwelliant mawr wedi bod o ran amseroldeb; er bod nifer mwy o atgyfeiriadau maent yn cael eu hymchwilio a’u cwblhau yn fwy prydlon; mae cadeirydd ac aelodau panel newydd wedi’u penodi ac mae uned busnes newydd wedi’i sefydlu i gefnogi’r bwrdd rhanbarthol.

  Nododd yr Aelodau fod nifer o awdurdodau lleol yn rhan o’r adolygiad penodol hwn.  Roedd nifer mawr o ddiffynyddion yn rhan o achos cymhleth. Ar yr adeg heriodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys a chyd-destun yr adroddiad.

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth fanwl mewn perthynas â’r oedi a’r argymhellion wedi’u gwneud o ganlyniad i’r adolygiad i sicrhau bod y materion wedi’u cywiro.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant wedi’u gwneud ac sydd heb eu gwneud eto.

25 : DIWEDDARIAD ADDYSG – CANLYNIADAU DROS DRO 2018

Croesawodd y Cadeirydd Gillian James (Uwch Arweinydd Cyflawni, Cau’r Bwlch) i’r cyfarfod i roi diweddariad i’r Aelodau mewn perthynas â chanlyniadau dros dro 2018, wedi cylchredeg y canlyniadau dros dro yn y gorffennol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y canlyniadau yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant wedi gwella’n fawr a nodwyd bod canlyniadau ledled y ddinas yn dal i wella yn erbyn canlyniadau blaenorol.  Mae modd gwella o hyd, mae’n bwysig bod llinellau cyfathrebu da gyda phobl ifanc; aethpwyd i'r afael â'r anawsterau’n ymwneud â chefnogaeth ac anogaeth yn cael eu rhoi.

*This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg*

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau, er ei bod yn hawdd i'r ysgol ymfalchïo yn ei pholisi llesiant da, fod angen iddi gael ei herio i sicrhau ei bod yn gwneud yr hyn sydd orau i'r plant.  Dywedodd swyddogion fod y traciwr rhithwir yn helpu i ddeall lle mae'r materion fel y gellir eu herio.

- Mewn perthynas â'r disgyblion hynny yng Nghyfnod Allweddol 4, gofynnodd yr Aelodau beth mae'r plant hynny yn ei wneud nawr ac a ydynt yn cael eu cefnogi.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y data ar gynnydd yn dda, mae'r data'n ffurfio rhan o ddata Addewid Caerdydd a gellir rhoi'r data hwnnw.  Gofynnodd yr Aelodau a ellir rhoi data ar gyfer cyfnod hirach.

26 : ADOLYGIAD O'R CYLCH GORCHWYL AC AMLDER CYFARFODYDD

Croesawodd y Cadeirydd Gill Nurton (Rheolwr y Gwasanaethau Pwyllgor ac Aelodau) i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad sy'n amlinellu'r cylch gorchwyl cyfredol ac amlder y cyfarfodydd.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud adolygiad o Ddisgrifiadau Rolau Etholedig i gynnwys datblygu Disgrifiad Rôl i'r Cadeirydd ac Aelodau o'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd yr Aelodau amlder y cyfarfodydd; swm y busnes sydd ar yr agenda ar hyn o bryd a gwaith pellach maent am ei wneud a thra'n derbyn y byddai angen mwy o swyddogion i gynyddu nifer y cyfarfodydd i 6 y flwyddyn, teimlont fod hyn yn angenrheidiol.

- Trafododd yr Aelodau y cylch gorchwyl a'r angen i'w hadolygu.  Byddai is-grŵp yn cael ei sefydlu i adolygu'r cylch gorchwyl hynny.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau gan Emma Phipps-Magill fod digwyddiad Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn Llandrindod ar 15 Tachwedd 2018 fydd yn arddangos gwaith wedi'i wneud gan y grŵp canlyniadau gweinidogol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.  Bydd lleisiau'n rhannu gwybodaeth ymgynghoriad am y canllaw newydd i Rieni Corfforaethol a chynnydd ynglŷn ag ef.  Gall y wybodaeth honno gael ei bwydo'n ôl i'r Aelodau ar adeg y cyfarfod nesaf.

- Trafododd yr Aelodau bresenoldeb mewn cyfarfodydd a'r angen i sicrhau bod yr holl Aelodau etholedig wedi derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen.

PENDERFYNWYD:

1. Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol, a bod yr adolygiad yn cael ei wneud gan yr is-grŵp.
2. Nodi y bydd angen i'r Pwyllgor gytuno ar y cylch gorchwyl terfynol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w ddilysu;
3. Cynyddu amlder cyfarfodydd i 6 y flwyddyn;
4. Nodi bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud adolygiad o Ddisgrifiadau Rolau Etholedig i gynnwys datblygu Disgrifiad Rôl i'r Cadeirydd ac Aelodau o'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol.

27 : DIWEDDARIAD FFRYDIAU GWAITH AELODAU

Rhoddodd y Cynghorydd ddiweddariad i'r Aelodau. Mewn perthynas â gwella canlyniadau i Blant a dywedodd fod llawer o waith yn cael ei wneud yn y Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd. ***Mae cynlluniau ar waith i gael 5 cartref o bosibl erbyn 2018/19.***

Ar 11 Hydref cymeradwyodd y Cabinet fodel cyflawni newydd i Help a Chymorth i Deuluoedd yng Nghaerdydd. Mae'n galluogi newid sylfaenol i sut mae'r Cyngor yn cyfeirio ymholiadau'r Gwasanaethau Plant trwy'r MASH.

28 : DIWEDDARIAD YMWELIADAU AELODAU

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

29 : ADRODDIADAU BRIFFIO

30 : CYFLWYNO ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 1

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

31 : ADRODDIAD AR GWYNION A CHANMOLIAETH CHWARTER 1

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

32 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32 CROSSLANDS

Ni chyhoeddir yr adroddiadau mewn perthynas â'r eitem hon gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth a eithrir o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:

(i) Gwahardd y cyhoedd tra bod yr eitem yn cael ei hystyried; a
(ii) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(a) <u>Adroddiadau Rheoliad 32 Tŷ Storrie</u>

Ni chyhoeddir yr adroddiadau mewn perthynas â'r eitem hon gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth a eithrir o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:

(i) Gwahardd y cyhoedd tra bod yr eitem yn cael ei hystyried; a
(ii) Nodi cynnwys yr adroddiad.

33 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

Trafododd yr Aelodau'r Adroddiad Blynyddol drafft. Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei roi i'r Cabinet er gwybodaeth yn unig.

34 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

35 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol, ddydd Mawrth, 29 Ionawr 2019 am 2.00pm.

The meeting terminated at 4.25 pm